

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ysbyty'r Trallwng: Ward Maldwyn

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Hydref 2020

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Maldwyn yn Ysbyty'r Trallwng ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ward Maldwyn yn uned sy'n cynnwys 21 o welyau ac mae'n darparu gwasanaethau meddygol, adsefydlu a gofal lliniarol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Ward ar 15 Hydref 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cawsom amrywiaeth o ddeunyddiau canllaw roedd y ward wedi bod yn eu dilyn ers yr achosion o COVID-19 er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff. Roeddent yn cynnwys canllawiau cenedlaethol i leoliadau gofal iechyd yn ogystal â chanllawiau lleol gan Fwrdd

Iechyd Addysgu Powys.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg a gwblhawyd ar y ward yn ddiweddar yn ymwneud â COVID-19 ac roedd yn nodi'r amrywiaeth o fesurau sydd ar waith er mwyn helpu i leihau'r risg o groes-heintio ymhlith y staff a'r cleifion yn ystod y pandemig. Addaswyd amgylchedd y ward mewn ymgynghoriad â'r uwch-nyrs ar gyfer atal a rheoli heintiau yn y bwrdd iechyd; rhoddwyd parthau coch, oren a gwyrdd ar waith er mwyn helpu i wahanu a rheoli'r cleifion yn ddiogel yn unol â'u statws o ran COVID-19, a helpu i atal pobl rhag defnyddio'r ward fel ffordd drwodd. Gostyngwyd nifer y gwelyau a oedd ar gael ar y ward o 21 i 17 er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y gofod rhwng gwelyau'r cleifion yn eu galluogi i gadw pellter cymdeithasol.

Trafododd rheolwr y ward y trefniadau newydd sydd ar waith i gefnogi llesiant y staff yn ystod COVID-19. Cafodd yr ystafell staff ei symud er mwyn sicrhau y gallai'r aelodau o staff ddilyn y canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol. Mae'r ystafell staff newydd yn cael ei galw'n 'hwb llesiant' yn anffurfiol, lle y caiff unrhyw roddion o'r gymuned leol megis coffi a bwyd eu storio a'u gwneud ar gael i'r staff yn ystod eu seibiannau. Cawsom wybod bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau asesiad risg personol ar gyfer COVID-19 gyda'u rheolwyr er mwyn helpu i ddiogelu a rheoli'r aelodau o staff y nodwyd eu bod mewn risg uwch o gael symptomau difrifol pe baent yn cael COVID-19.

Cadarnhaodd rheolwr y ward na chafwyd unrhyw achosion o brinder Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i'r staff ei wisgo ers dechrau COVID-19. Mae aelodau o staff y ward yn cynnal gwiriadau wythnosol o stoc PPE bob dydd Mercher a chaiff stoc ychwanegol ei ddarparu o hwb canolog a reolir gan y bwrdd iechyd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y parthau coch, oren a gwyrdd a gafodd eu creu er mwyn helpu i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel yn ystod COVID-19 wedi gweithio'n dda. Cawsom wybod bod posteri'n cael eu harddangos ym mhob rhan o'r ward er mwyn atgoffa'r staff o'r

lefelau a'r mathau gwahanol o PPE sydd eu hangen ym mhob parth. Nid yw prif fynedfa'r ward yn cael ei defnyddio bellach er mwyn helpu i atal pobl rhag defnyddio'r ward fel ffordd drwodd. Mae'r staff a'r ymwelwyr yn cyrraedd y ward drwy'r ardd erbyn hyn.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys llun o'r arwyddion a osodir ar lenni sydd wedi'u cau o amgylch gwelyau'r cleifion ar y ward er mwyn atgoffa'r staff i ofyn cyn mynd i mewn a sicrhau bod y claf yn ymwybodol eu bod yno. Nod hyn yw helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Trafododd rheolwr y ward y mesurau sydd ar waith er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn enwedig y rheini sydd â dementia a namau gwybyddol eraill. Mae hyrwyddwr dementia wedi cael ei benodi ar gyfer y ward ac mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar Gynllun Pili Pala¹ er mwyn helpu i ddeall anghenion cleifion o'r fath, i'w galluogi i roi gofal a chymorth mwy effeithiol a phriodol.

Cawsom wybod bod y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau'n electronig yn ystod y cyfnod clo a'r cyfyngiadau ar ymweld â chleifion. Mae trefniadau ar gyfer ymweld â chleifion yn dechrau cael eu hailgyflwyno drwy system trefnu ymweliadau. Yn ogystal â hyn, caiff ymwelwyr eu haddysgu a'u cyfarwyddo ar sut i wisgo'r PPE gofynnol yn briodol gan y staff a'u tywys at y claf yn uniongyrchol.

Disgrifiodd rheolwr y ward sut y caiff anghenion y cleifion eu diwallu drwy eu cynnwys nhw a'u teuluoedd yn yr asesiadau cynllunio gofal, mewn rowndiau ward dyddiol a chyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol wythnosol. Caiff dogfennau ²'Dyma fi' eu defnyddio ar y ward i gofnodi manylion personol a disgrifio anghenion y cleifion â dementia a'r sawl sydd â namau gwybyddol er mwyn helpu i deilwra eu gofal.

Gwelsom dystiolaeth fod uwch-nyrs wedi cwblhau adroddiad Gwiriadau Ansawdd ym maes Gofal Iechyd ym mis Awst 2020, a oedd gwirio p'un a oedd y gofal ar y ward yn cael ei ddarparu yn unol â'r safonau perthnasol ac mewn ffordd ddiogel a thrugarog. Nodwyd bod y nyrs wedi dod o hyd i feysydd o arferion da a gwelsom fod pob gwelliant a nodwyd wedi cael ei roi ar waith yn amserol.

Cawsom wybod bod y risg o bwysedd neu niwed i'r feinwe i gleifion yn cael ei thrafod yng nghyfarfodydd wythnosol y tîm aml-ddisgyblaethol. Cawsom ddata a oedd yn dangos bod nifer yr achosion o friwiau pwyso ar y ward wedi aros yn isel yn gyson dros y 36 mis diwethaf.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

¹ Mae cynllun 'Pili Pala' yn darparu system o ofal ysbyty i bobl sy'n byw gyda dementia neu i bobl nad yw eu cof mor ddibynadwy ag yr arferai fod.

² Taflen a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Alzheimer's yw 'Dyma fi', sy'n helpu staff mewn ysbytai i ddeall anghenion pobl sy'n dioddef o ddementia yn well. Mae'r daflen yn rhoi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol am unigolyn sy'n dioddef o ddementia er mwyn helpu i wella'r gofal a'r cymorth a gaiff tra bydd mewn amgylchedd anghyfarwydd

Dyweddod rheolwr y ward wrthym nad oedd yr ystafell ddydd fawr ar gael i'r cleifion ar hyn o bryd gan fod offer yn cael ei gadw yno oherwydd prinder opsiynau storio eraill. Gwnaethom nodi fod y mater hwn wedi'i nodi yn y gwiriad ansawdd arsylwadol a gynhaliwyd ym mis Awst 2020. Dywedodd y nyrs hefyd fod offer yn cael ei storio yn un o'r ystafelloedd ymolchi ar y ward.

Roedd hyn yn golygu na allai'r cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn yr ystafell ddydd a bod gweithgareddau adsefydlu'n cael eu cynnal wrth ochr y gwely. Gan fod hyn yn gallu effeithio ar broses y cleifion o wella, rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniadau hyn er mwyn helpu i leihau'r effaith ar y cleifion.

Cawsom wybod bod y cleifion yn cael asesiadau risg wythnosol er mwyn helpu i fonitro ac atal y risg o gwmpo. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd, gwnaethom nodi brigiad diweddar yn nifer yr achosion o gwmpo a chynnydd cyfatebol yn y cyfartaledd dros 12 mis. Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn myfyrio ar y rhesymau posibl dros y cynnydd hwn a rhoi sicrwydd i AGIC o'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward am y trefniadau sydd ar waith er mwyn helpu i atal COVID-19 rhag lledaenu drwy'r ward, wrth i gleifion gael eu derbyn i'r ward ac yn y gymuned ehangach pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau. Mae'r cleifion naill ai'n cael prawf COVID-19 cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r ward neu'n cael prawf ar ôl cyrraedd yr ysbyty. Yn y ddau achos, caiff y cleifion eu hynysu o'r cleifion eraill ar y ward mewn un o'r pum ystafell ar wahân nes eu bod yn cael canlyniadau'r profion. Yna, caiff y claf ei symud i'r parth priodol. Gwelsom dystiolaeth o restr wirio trosglwyddo COVID-19 a gaiff ei chwblhau gan y staff ar y ward cyn i gleifion gael eu rhyddhau. Nod y rhestr wirio yw gwella cyfathrebu a rhoi eglurder am statws COVID-19 pob claf i'r gwasanaethau cymunedol, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r claf yn ddiogel ac yn briodol.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o COVID-19 ac ar wisgo a diosg PPE yn ddiogel ar ddechrau COVID-19. Roedd gofyn i'r aelodau o staff ddangos eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd mewn perthynas â defnyddio PPE yn ddiogel i reolwr y ward yn dilyn yr hyfforddiant. Cawsom wybod y caiff hyfforddiant gloywi PPE ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff cyn bo hir i'w hatgoffa cyn yr ail don o COVID-19 a ragwelir. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad PPE a gwblhawyd ym mis Awst 2020 i fonitro defnydd diogel o PPE a gwelsom na nodwyd unrhyw broblemau.

Cawsom wybod bod ffolder adnoddau yn cael ei gadw ar y ward er mwyn sicrhau bod y staff yn cael gwybod am unrhyw gyhoeddiad neu newid i drefniadau lleol yn ymwneud â COVID-19. Disodlwyd y cyfarfodydd tîm misol â sgrymiau staff dyddiol pan oedd COVID-19 ar ei waethaf er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhaedru i lawr i'r staff a'u bod yn ymwybodol o'r tirwedd oedd yn newid yn gyflym.

Cawsom dystiolaeth o nifer o bolisiâu a gweithdrefnau penodol ar gyfer COVID-19, gan gynnwys canllawiau atal a rheoli heintiau a gweithgareddau archwilio ar y ward i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn a helpu i nodi gwelliannau. Caiff adroddiadau tynnu sylw at atal a rheoli heintiau eu cynnal ar bob ward yn chwarterol a chânt eu cyflwyno i'r bwrdd iechyd i'w trafod yng nghyfarfodydd grŵp y bwrdd iechyd i rannu'r hyn a ddysgwyd ym mhob safle. Mae'r gwiriadau a gaiff eu cynnal yn fwy aml ar y ward yn cynnwys archwiliadau hylendid dwylo a glanhau misol a gwelsom nad oedd unrhyw broblemau wedi'u nodi yn ystod yr archwiliadau diweddar.

Gwelsom dystiolaeth mai prin iawn oedd y digwyddiadau'n ymwneud â heintiau a gafwyd wrth gael gofal iechyd yn Ysbyty'r Trallwng yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiâu (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Trafododd rheolwr y ward y trefniadau a oedd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gymysgedd briodol o sgiliau a niferoedd staff ar y ward yn ystod pob sifft. Caiff HealthRoster ei ddefnyddio fel adnodd cyffredinol i reoli rotas, dewisiadau gweithio staff a rheoli absenoldebau. Cafodd gwerthusiad ei gwblhau yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016³ i bennu nifer priodol o staff sydd ei angen i roi gofal i'r cleifion er mwyn diwallu eu hanghenion. Caiff ceisiadau brys am adnoddau ychwanegol eu huwchgyfeirio a'u llenwi o'r uned staffio dros dro yn y bwrdd iechyd neu drwy staff asiantaeth.

Cawsom wybod fod bwrdd 'Gwybod sut rydym yn perfformio' wedi'i arddangos ar y ward a oedd yn dangos y niferoedd staffio gofynnol a'r niferoedd staffio gwirioneddol fesul sifft. Caiff

³ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5/enacted/welsh>

y staff eu hannog i roi gwybod am unrhyw 'newid mewn pryderon' wrth i faterion yn ymwneud â staffio godi a allai effeithio ar lefel y gofal a ddarperir i gleifion. Yn gadarnhaol, cawsom wybod mai dim ond tri achos o newid mewn pryderon y rhoddwyd gwybod amdanynt dros y chwe mis diwethaf.

Soniodd rheolwr y ward am y cymorth rheoli a ddarparwyd i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd ac Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol i drafod amcanion a helpu i nodi unrhyw ofynion dysgu. Gwelsom dystiolaeth fod 63% o'r staff wedi derbyn eu PADR blynyddol a bod dyddiadau wedi'u trefnu dros y misoedd sydd i ddod i gwblhau'r rhai sy'n weddill. Mae AGIC yn disgwyl i'r rhain gael eu cwblhau fel y cytunwyd, ac mae'n ystyried bod sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraddau cwblhau ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu yn y dyfodol yn flaenoriaeth i'r bwrdd iechyd.

Cawsom wybod bod y staff yn cael amser i gwblhau eu gofynion hyfforddiant yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Gwelsom dystiolaeth fod lefel y gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol a statudol yn uchel ymhlith y staff a oedd yn gweithio ar y ward. Caiff y staff eu hannog i uwchsgilio lle y bo'n bosibl, ond dim ond ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant gorfodol a statudol y gallant gwblhau hyfforddiant o'r fath.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Yn ystod ein trafodaeth â rheolwr y ward, gwnaethom drafod p'un a oedd y staff yn cael cyfleoedd i gael goruchwyliaeth glinigol. Dim ond nifer bach o'r staff sy'n cael goruchwyliaeth glinigol ar hyn o bryd a byddai AGIC yn disgwyl i gyfleoedd o'r fath gael eu hannog ymhellach i wella cyfranogiad y staff er mwyn eu helpu i ddatblygu â'r nod o wella'r gofal i gleifion.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty'r Trallwng

Ward: Ward Maldwyn

Dyddiad y gweithgarwch: 15 Hydref 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r mater yn ymwneud ag offer yn cael ei gadw yn yr ystafell ddydd a'r ystafell ymolchi ar y ward er mwyn helpu i leihau unrhyw effaith bosibl ar y broses o helpu'r cleifion i adfer.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 6.1	Yn sgil Covid-19, mae'r ystafell ddydd yn cael ei defnyddio ar gyfer lles staff, sgrymiau a gwisgo a diosg PPE ac ati, ar hyn o bryd. Gall y cleifion gael mynediad i'r ystafell ddydd y tu allan i'r amseroedd hyn, ond dim ond dau ohonynt a all fynd i mewn iddi ar y tro ar hyn o bryd, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Bydd yr ystafell ddydd yn dychwelyd i'w swyddogaeth arferol cyn gynted â phosibl. Dim ond ar gyfer gweithgareddau un i un y caiff y gampfa	Zoe Clent - Rheolwr gwasanaethau cymunedol	Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau o fewn pedwar mis

			ffisiotherapi ei defnyddio. Cydnabyddir bod diffyg lle i storio offer codi a symud mawr ar y ward ac felly mae'r offer cario yn cael ei storio yn yr ystafell ymolchi ar hyn o bryd. Bydd y dirprwy brif nyrs yn gofyn i'r adran waith ymweld â'r ward a chwblhau adolygiad o gyfleoedd i greu ardal storio briodol ar gyfer yr offer cario. Os bydd claf yn gofyn am gael bath, yna caiff yr offer ei symud ar hyn o bryd i hwyluso hyn.		Un mis
2	Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r cynnydd yn nifer y cwympiadau dros y 12 mis diwethaf a rhoi sicrwydd i AGIC o'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater yn y dyfodol.	Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.3	Caiff rhai cymhorthion i fonitro'r achosion o gwmpo eu defnyddio ar y ward. Cytunwyd i gysylltu â chwmnïau perthnasol i ymchwilio i argaeledd cymhorthion amgen ac ychwanegol i ddiwallu anghenion y cleifion. Caiff adolygiad ei gynnal o'r adroddiadau DATIX sy'n cynnwys achosion o gwmpo ymhlith y cleifion. Diben hyn fydd nodi unrhyw wersi a ddysgwyd, themâu cyffredin ac adolygu'r dull o gofnodi a choladu nifer y cwympiadau. Yn ogystal, caiff hyn ei ychwanegu at waith datblygu'r gweithgor cwympiadau, dan arweiniad yr adran Arloesi.	Zoe Clent - Rheolwr gwasanaethau cymunedol	Un mis Dau fis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Zoë Clent

Dyddiad: 03 Tachwedd 2020